OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1354 (Cy.131)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Diddymu) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*14 Mai 2002*
Yn dod i rym - -	*15 Mai 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi (**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2), yn gwneud y rheoliadau canlynol —

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Diddymu) (Cymru) 2002; maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 15 Mai 2002.

Diddymu

2. Mae Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (**3**) a Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002 (**4**)) yn cael eu diddymu.

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. 1999/2788).
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2002/274 (Cy.30).
(**4**) O.S. 2002/811 (Cy.91).